EUSWNC7

Cynnal cysylltiadau prif bibellau dŵr llinellol at rwydweithiau byw

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynnal cysylltiadau prif bibellau dŵr llinellol. Mae hyn yn cynnwys cynnal a phrofi cysylltiadau byw yn unol â gweithdrefnau cymeradwy i sicrhau diogelwch ansawdd dŵr ac uniondeb rhwydweithiau dŵr. Mae'r Safon hon ar gyfer gweithwyr adeiladu rhwydweithiau dŵr sy'n cynnal cysylltiadau prif bibellau dŵr llinellol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio yn unol â rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch, yr amgylchedd, ansawdd dŵr a rheoliadau a chanllawiau perthnasol eraill bob amser
2. cael gwybodaeth am waith cysylltu prif bibellau gan bobl berthnasol, gan ofyn am eglurhad pan fo angen
3. cynnal cysylltiadau yn unol â chanllawiau perthnasol y diwydiant, datganiadau dull a chyfarwyddiadau gwaith
4. cynnal cysylltiadau prif bibellau unwaith y ceir caniatâd i’w awdurdodi gan gwmnïau dŵr
5. cynnal cysylltiadau yn unol â safonau ansawdd a hylendid perthnasol bob amser
6. cynnal cysylltiadau yn unol â gweithdrefnau gweithio diogel bob amser
7. defnyddio dulliau a gydnabyddir gan y diwydiant i brofi ffitiadau
8. gofyn i bobl briodol am gyngor ynglŷn ag unrhyw waith nad oes modd ei wneud i safonau penodedig
9. dilyn gweithdrefnau’r sefydliad pan na ellir cwblhau gwaith yn unol â’r cynllun
10. rhoi gwybod i gwmnïau dŵr pan fydd cysylltiadau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio gweithdrefnau cymeradwy
11. cwblhau dogfennau'r cysylltiad â'r wybodaeth gywir a'i storio yn y man penodedig
12. darparu dogfennau gwaith wedi'i gwblhau i'r bobl briodol pan fo angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. deddfwriaeth iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a deddfwriaethau perthnasol eraill, gweithdrefnau sefydliadol a chodau ymarfer
2. rheoliadau dŵr a gweithdrefnau hylendid sy'n ymwneud â sicrhau cyfanrwydd ac effeithiolrwydd cyflenwadau dŵr, gan gynnwys pwysigrwydd hylendid personol
3. manylebau Dylunio ac Adeiladu'r cwmni dŵr a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cysylltu â rhwydweithiau byw a phrofi cysylltiadau
4. y cyfarpar a'r offer sydd eu hangen ar gyfer cysylltiadau prif bibellau a sut i'w defnyddio
5. unrhyw ddogfennau prawf sydd eu hangen ymlaen llaw
6. mathau cymeradwy o weithdrefnau cysylltu ac uniadu
7. mathau o gyfarpar diogelu personol (PPE) a sut maent yn cael eu defnyddio
8. signalau ac arwyddion cymeradwy ar gyfer diogelu a gwneud yr ardal waith yn ddiogel
9. gweithdrefnau a llinellau cyfrifoldeb y cwmni ar gyfer egluro cyfarwyddiadau, gofyn am gyngor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd
10. gweithdrefnau cymeradwy ar gyfer delio â phroblemau a rhoi gwybod amdanynt
11. gofynion dogfennu a sut i'w llenwi a'u storio

EUSWNC7

Cynnal cysylltiadau prif bibellau dŵr llinellol at rwydweithiau byw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSWNC7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydweithiau Dŵr |
| **Geiriau Allweddol** | diogel, prif bibellau, cysylltiadau, dŵr, cyfleustod, cyfleustodau, ar-lein, rhwydwaith, adeiladu, gweithrediadau, hunan-osod, prif gyflenwad dŵr, rhwydwaith byw |